Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithredoedd o dan y Cynllun Sector Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'r Rhaglen Atal Gwastraff

## Adroddiad Cryno

Mehefin 2010 – Mawrth 2016

Tecstiliau

Papur

Plastig

Metalau

Trydanol

Pren

Gwydr Glas

Gwydr Brown

Paent

Organig o'r Ty

# Rhagair

Rwy'n falch o gael cyflwyno'r adroddiad hwn sy'n crynhoi'r gwaith gafodd ei wneud tan fis Mawrth 2016 ar roi ymrwymiadau'n cynllun rheoli gwastraff statudol ar waith.[1] Mae'n rhoi sylw arbennig i'n cynlluniau ar gyfer y sector gwastraff a'n Rhaglen Atal Gwastraff ac yn dilyn ein hadroddiad blaenorol 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff, 2010-2050, Adroddiad Cynnydd Gorffennaf 2015' (Saesneg yn unig), sy'n ymdrin yn benodol â'n hymrwymiadau yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff (y Strategaeth), ein strategaeth wastraff hollgwmpasog.[2]

Rydym yn gwneud yn dda o ran gweithio at dargedau'r Strategaeth. Mae'r targedau hynny'n cynnwys lleihau gwastraff, gwella cyfraddau ailgylchu, compostio ac adfer, anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi a rhagori ar y targed i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o wastraff, hynny'n unol â'n Strategaeth Newid Hinsawdd.

Mae'n hanfodol defnyddio adnoddau'n effeithlon fel egwyddor ym mhob rhan o fywyd a thorri'r cysylltiad rhwng twf economaidd a chynhyrchu gwastraff er mwyn gwireddu'n hamcan o wneud Cymru'n Genedl Un Blaned, gan wneud datblygu cynaliadwy'n ganolog i holl waith y Llywodraeth. Mae'n ganolog hefyd i'n hamcanion o ddatblygu economi gylchol sydd â photensial ar gyfer arbedion mawr i fusnesau ac unigolion.

Deddfwriaeth yw un o'r arfau sydd gennym i roi polisïau ar waith. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol er mwyn sicrhau bod anghenion heddiw yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn bosib cynllunio adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Lle bo hynny'n bosib a lle bo gennym bolisïau tebyg i rai Llywodraethau eraill y DU, rydym wedi gweithio'n glos â nhw i sicrhau bod ein deddfwriaeth yn gyson â'u deddfwriaeth nhw.

Rydym wedi gweithio'n glos â phartneriaid darparu allweddol fel Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoleiddio'r agweddau caniatáu a rheoli gwastraff, Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) sy'n gweithio gyda busnesau ac unigolion i'w helpu i leihau gwastraff, datblygu cynnyrch cynaliadwy a defnyddio adnoddau'n effeithiol ac Adeiladu Rhagoriaeth yng Nghymru, sy'n arwain ymdrechion atal gwastraff yn y sector adeiladu a dymchwel a rhannu arferion da. Rydym wedi cael help gwerthfawr hefyd oddi wrth Ganolfan Ragoriaeth Cymru ar gyfer Treulio Anaerobig, y Ganolfan Eco-Ddylunio a'r Sefydliad Siartredig dros Reoli Gwastraff yn eu meysydd o arbenigedd.

1 Yn ogystal â'r Strategaeth, dyma'r dogfennau sy'n rhan o'n cynllun gwastraff o dan Reoliad 7 Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011: Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, Cynllun y Sector Trefol, Cynllun y Sector Gwastraff Diwydiannol a Masnachol, Cynllun y Sector Adeiladu a Dymchwel, Cynllun y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd, y Rhaglen Atal Gwastraff, Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 21.

2 I'w gweld yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/zerowaste/?skip=1&lang=cy

O ran hyrwyddo atal gwastraff, mae WRAP wedi cynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth cwsmeriaid fel 'Love Food Hate Waste' a 'Love Your Clothes' a hefyd trwy nifer o gytundebau gwirfoddol â diwydiant o ran pacio bwyd, cynaliadwyedd cynnyrch, cynnyrch trydan a dillad cynaliadwy.

Mae hyrwyddo ailddefnyddio'n bwysig er mwyn symud yn uwch i fyny'r hierarchaeth wastraff. Rydym wedi rhoi cyngor i'r cyhoedd ar sut a ble i roi eitemau'r tŷ ar gyfer eu hailddefnyddio, trwy wella'r Canfyddwr 'Recycling Now' ar-lein ac rydym wedi bod yn annog mudiadau elusennol ac ailddefnyddio ledled Cymru i'w ddefnyddio. Buom yn gweithio hefyd â WRAP Cymru ar gynigion ar gyfer Cynghrair Ailddefnyddio i ddatblygu'r seilwaith a chodi ymwybyddiaeth am yr economi ailddefnyddio.

Cymru yw'r unig wlad yn y DU i osod targedau ailgylchu statudol ac rydym yn arwain y ffordd o ryw dipyn yn y DU o ran ailgylchu gwastraff trefol. Yn 2015/16, roedd gennym gyfradd ailgylchu o 60.2% o'i gymharu â'r targed statudol o 58%. Mae ein record yn cymharu'n ffafriol hefyd ag Ewrop a hyd at fis Mawrth 2016, ein cyfradd ailgylchu trefol oedd y pedwerydd orau yn yr UE. Pe bai Cymru'n cael ei chofnodi fel gwlad ar wahân, hi fyddai'r wlad orau ond un am ailgylchu yn Ewrop a'r trydydd orau yn y byd , yn ôl adroddiad gan Eunomia a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017.[3] Mae gwastraff o gartrefi nad wy'n cael ei anfon i'w ailgylchu yn parhau i ostwng, o 258.4 kilogram y person y flwyddyn yn 2010-11 i 198.7 kilogram y person y flwyddyn yn 2015-16.[4] Mae lleihau'r swm o wastraff nad yw'n cael ei ailgylchu a gostwng y swm sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn allweddol i greu cymdeithas ailgylchu.

Rydym hefyd wedi rhoi'r cyfle i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gymryd rhan yn y Rhaglen Newid Gydweithredol sy'n helpu i sicrhau bod Cymru'n taro'r targedau ailgylchu uwch ac yn darparu grantiau cyfalaf i newid gwasanaethau a helpu Awdurdod Lleol i symud at wasanaethau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy.

Rwy'n ymfalchïo yn y gwaith rydym wedi'i wneud ers cyhoeddi'r Strategaeth ac rwy'n benderfynol o weld y gwaith hwn yn mynd yn ei flaen. Byddwn yn mynd ati ym mis Gorffennaf 2018 i ymgynghori am y gwaith o ddiweddaru Tuag at Ddyfodol Diwastraff er mwyn sicrhau ei fod yn ategu'r amcanion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd y Strategaeth newydd yn ein helpu i gyrraedd ein nod Un Blaned o leihau effaith gwastraff yng Nghymru i lefel sydd o fewn ein terfynau amgylcheddol drwy gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig, i sicrhau bod anghenion heddiw'n cael eu diwallu heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.



**Lesley Griffiths**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

3 'Recycling – who really leads the world? Identifying the world's best municipal waste recyclers', Eunomia, ar gael yn http://www.eunomia.co.uk/reports-tools/recycling-who-really-leads-the-world/

4 StatsCymru, Gwastraff gweddilliol y cartref a gynhyrchir fesul unigolyn yn ôl awdurdod lleol a chwarter, yn https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/Quarterly/residualhouseholdwasteproducedperperson-by-localauthority-quarter

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg ar y cynnydd yr ydym wedi ei wneud rhwng 2010 a mis Mawrth 2016 o'i gymharu â'r ymrwymiadau yn ein cynlluniau sector gwastraff a Rhaglen Atal Gwastraff Cymru. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'n prif strategaeth gwastraff Tuag at Ddyfodol Diwastraff, yn cynnwys ein cynllun rheoli gwastraff statudol ar gyfer Cymru.[5] Adroddir y cynnydd o dan y penawdau camau trawsbynciol a'r camau hierarchaeth gwastraff o atal gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu, a dulliau eraill o adfer a gwaredu gwastraff.

Mae cynllun rheoli gwastraff statudol Cymru yn ofynnol o dan y gyfraith ac mae'n cyflawni blaenoriaethau gweinidogol a Rhaglen Lywodraethu ar gyfer twf gwyrdd, defnyddio adnoddau'n effeithlon, trechu tlodi a chynyddu cydnerthedd busnesau ac economi Cymru. Mae'r cynllun yn cynnwys:

- Tuag at Ddyfodol Diwastraff[6]
- Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd[7]
- Cynllun Sector Trefol[8]
- Cynllun y Sector Diwydiannol a Masnachol[9]
- Cynllun y Sector Adeiladu a Dymchwel[10]
- Cynllun y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd[11]
- Rhaglen Atal Gwastraff[12]
- Polisi Cynllunio Cymru[13]
- Nodyn Cyngor Technegol 21[14]

**Rydym yn datblygu dwy ddogfen arall i gwblhau'r gyfres:**

- Cynllun Gwastraff a Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon y Sector Cyhoeddus (cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun arfaethedig ym mis Medi 2015 a byddwn yn cyhoeddi'r cynllun terfynol a dogfen ymateb Llywodraeth Cymru yn ystod haf 2017).
- Datganiad ar y sefyllfa Amaethyddol (i'w gyhoeddi yn ystod 2017).

wrap Cymru

THE AD CENTRE — THE WALES CENTRE OF EXCELLENCE FOR ANAEROBIC DIGESTION

5 Ceir manylion y cynnydd o'i gymharu â'r targedau a osodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Adroddiad Cynnydd Gorffennaf 2015', ar gael yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/zerowaste/?skip=1&lang=cy

6 Ar gael yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/zerowaste/?skip=1&lang=cy

7 Ar gael yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/cimsectorplan/?skip=1&lang=cy

8 Ar gael yn: http://gov.wales/docs/desh/publications/110310municipalwasteplan1cy.pdf

9 Ar gael yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/industrial-and-commercial-sector-plan/?lang=cy

10 Ar gael yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/canddsectorplan/?lang=cy

11 Ar gael yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/food-manufacture-service-and-retail-sector-plan/?lang=cy

12 Ar gael yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/prevention/waste-prevention-programme/?skip=1&lang=cy

13 Ar gael yn: http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan21/?skip=1&lang=cy

14 Ar gael yn: http://gov.wales/docs/desh/publications/140228technical-advice-note-21-en.pdf

Wrth gyflawni'r gwaith hwn rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol yr ydym yn eu hariannu â grant. Mae'r rhain yn cynnwys Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a FareShare. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Chanolfan Ragoriaeth Cymru ar gyfer Treulio Anaerobig, y Ganolfan Ecoddylunio a'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Gwastraff (CIWM) yn eu meysydd arbenigedd perthnasol.

## Uchafbwyntiau hyd at fis Mawrth 2016

Rydym wedi gwneud cynnydd da o'i gymharu â'n targedau ar gyfer lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff, gwella'r gyfradd ailgylchu, ailddefnyddio, compostio ac adfer a lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.[15] Mae'r cyflawniadau penodol yn cynnwys

- Cefnogi Awdurdodau Lleol i wneud newidiadau i wasanaethau er mwyn cyflawni targedau ailgylchu uwch, trwy ein Rhaglen Newid Gydweithredol. O ganlyniad, mae Cymru ar y blaen yn sylweddol ymhlith gwledydd y DU o ran ailgylchu gwastraff dinesig, gan gyflawni 60.2 y cant yn 2015-16, gwelliant o 19.7 pwynt canran ers 2009-10.[16]
- Lleihau yn gyffredinol faint o'r gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru a anfonir i safleoedd tirlenwi cymeradwy i 2.1 miliwn o dunelli yn 2013, sy'n cynrychioli 27 y cant o'r gwastraff a reolir gan safleoedd cymeradwy, o'i gymharu â 2.3 miliwn o dunelli yn 2010 (37 y cant).[17]
- Er gwaethaf cynnydd rhwng 2014-15 a 2015-16, gwnaethom gynnydd cyffredinol, o 1 y cant ar gyfartaledd fesul blwyddyn o 2009-10 i 2015-16[18], o ran lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff aelwydydd.
- Cyflawni targed yr UE erbyn 2020 ar gyfer gwastraff bioddiraddadwy a gesglir gan Awdurdodau Lleol ac eraill a anfonir i safleoedd tirlenwi wyth mlynedd yn gynnar.[19]
- Rhwng 2009 a 2014, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â gwastraff gan 9.6 y cant fesul blwyddyn ar gyfartaledd, gan ragori ar y targed lleihau o 3 y cant fesul blwyddyn a nodir yn ein Strategaeth Newid Hinsawdd.[20]

15 Ceir manylion y cynnydd o'i gymharu â'r targedau a nodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Adroddiad Cynnydd Gorffennaf 2015', sydd ar gael yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/zerowaste/?skip=1&lang=cy

16 Ffynonellau: Adroddiad rheoli gwastraff dinesig Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru, 2015-16, http://gov.wales/docs/statistics/2016/161006-local-authority-municipal-waste-management-2015-16-en.pdf; Gwefan StatsCymru, Gwastraff Dinesig awdurdodau lleol, 2008-09 i 2013-14 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/Annual

17 Ffynhonnell: Gwybodaeth Data Gwastraff Cymru 2013, Tabl 2, Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gael yn: http://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/waste-reports/wales-waste-data-information-2013/?lang=cy

18 Ffynonellau: Local Authority municipal waste management report for Wales, 2015-16, ar gael yn: http://gov.wales/docs/statistics/2016/161006-local-authority-municipal-waste-management-2015-16-en.pdf; Tunelli o wastraff a gynhyrchwyd yn ôl y math o wastraff a blwyddyn, 2000-01 i 2011-12, ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/Annual/Pre-April%202012-definition/TonnesOfWasteGenerated-by-Type-Year

19 Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

20 Ffynhonnell: National Atmospheric Emissions Inventory, Devolved Administration Tables, ar gael yn: http://naei.defra.gov.uk/reports/

## Prif gamau

Mae peth o’r gwaith yr ydym wedi ei ddatblygu yn berthnasol i holl gamau’r hierarchiaeth gwastraff gan gynnwys darparu canllawiau, deddfwriaeth, a datblygu a gorfodi rheoliadau.

Mae datblygiad cynaliadwy wrth wraidd Tuag at Ddyfodol Diwastraff ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dwy gyfraith allweddol sy’n atgyfnerthu’r dull hwn ym maes rheoli gwastraff a defnyddio adnoddau’n effeithlon. Trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, mae’n ofynnol bellach i’r cyrff sector cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf gynnwys datblygu cynaliadwy yn eu holl waith. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn creu’r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd mwy cynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae’r Ddeddf hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff annomestig ddidoli gwastraff ailgylchadwy, bod y casglwr i gasglu’r gwastraff ar wahân, a gwahardd deunyddiau gwastraff ailgylchadwy rhag cael eu llosgi a gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garffosydd o safleoedd annomestig.

Ers cyhoeddi Tuag at Ddyfodol Diwastraff a chynlluniau’r sector, rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o ganllawiau i gynorthwyo’r sector. Mae hyn yn cynnwys cyngor technegol ar swyddogaeth cynllunio’r defnydd o dir wrth reoli a thrin gwastraff trwy adolygu TAN21 – ‘Cynllunio a Gwastraff’, cyngor ar ddefnyddio’r hierarchaeth gwastraff a gwyriadau oddi wrthi a chyngor ar addasiadau newid hinsawdd. Mae cyngor ar gaffael cynaliadwy wedi’i ddarparu hefyd trwy wefan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru a’i Strategaeth Caffael Adeiladu a thrwy Gynllun Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff Sector Cyhoeddus drafft Llywodraeth Cymru.

PAS 402
GREEN COMPASS
Giving Waste Direction
CWMPAWD GWYRDD
Cyfeirio Gwastraff

Rydym wedi gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a gweinyddiaethau ac adrannau llywodraeth eraill y DU ar ddeddfwriaeth a rheoliadau er mwyn bwrw ymlaen â’n hamcanion. Er enghraifft, gwnaethom weithio gyda Defra i ddatblygu rheoliadau sy’n helpu i ddarparu cysondeb i fusnesau a’r rheoleiddwyr amgylcheddol. Gwnaethom gydweithio â Defra hefyd i ddiwygio’r Ddyletswydd Gofal drwy Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 i roi canllawiau syml, clir ac ymarferol i’r rhai hynny sy’n mewnforio, cynhyrchu, cario, cadw, trin neu waredu gwastraff a reolir er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau dyletswydd gofal cyfreithiol. Gwnaethom gynnal ymgynghoriad ar y cyd â Defra ym mis Chwefror 2015 ar chwe chynnig i gryfhau pwerau rheoleiddiol i fynd i’r afael â diffyg cydymffurfiad yn y diwydiant gwastraff a ganiateir a gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon. Gwnaethom hefyd weithio’n agos gyda Defra a gweinyddiaethau eraill y DU i gynyddu targedau ailgylchu o dan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) sy’n pennu targedau statudol uwch ar gyfer dur, alwminiwm a phlastig a thargedau hollt ar gyfer gwydr.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio i sicrhau bod y sector gwastraff yn cydymffurfio â rheoliadau ac rydym wedi cefnogi a gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn. Rydym hefyd yn cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau y gorfodir trwyddedau rheoli gwastraff gan ddefnyddio dull haenog ar sail risg. Wrth benderfynu ar geisiadau am drwydded, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau yr ystyrir yr effeithiau posibl ar iechyd cymunedau cyfagos. Trwy gyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol TAN(21) wedi'i ddiwygio, rydym hefyd wedi annog y defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd i alluogi Awdurdodau Lleol i ystyried ansawdd yr amgylchedd a'r effeithiau ar iechyd wrth asesu ceisiadau cynllunio. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i wella ei bwerau gorfodi i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a sefydlu dulliau o reoli allforion trwy Reoliadau Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau 2013.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

I gyfrannu at bolisïau a chyflawniad, rydym yn parhau i fonitro sgil-gynhyrchion gwastraff trwy fesurau fel:

- arolygon cyfnodol o'r sectorau diwydiannol a masnachol a'r sectorau adeiladu a dymchwel, yr ydym yn rhoi arian grant i Cyfoeth Naturiol Cymru i'w cyflawni
- y cynllun Cwmpawd Gwyrdd a weithredir gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru gyda'n harian grant, sy'n dilysu data rheoli gwastraff yn annibynnol yn y sector adeiladu a dymchwel
- rhoi arian grant i Cyfoeth Naturiol Cymru i fonitro'r gwaith o reoli gwastraff dinesig trwy'r Targedau Adfer Llywodraeth Leol a nodir ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 ar ein rhan.

## Atal Gwastraff

O ran atal gwastraff rydym wedi rhoi arian grant i WRAP i gynnal ymgyrchoedd defnyddwyr, a rhaglen Galluogi Dyfodol Diwastraff Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru sy'n cefnogi ymyraethau mewn prosiectau adeiladu byw.

Mae'r ymgyrchoedd defnyddwyr yn cynnwys Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff sy'n helpu aelwydydd i wneud y mwyaf o'r bwyd y maent yn ei ddefnyddio ac osgoi gwastraff bwyd, Caru eich Dillad sydd wedi ei ddatblygu gyda'r diwydiant i leihau effeithiau amgylcheddol dillad yn y DU, ac Ailgylchu dros Gymru sy'n helpu deiliaid tai i ddeall sut i wneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau casglu a ddarperir gan eu Hawdurdod Lleol. Hyd at fis Ebrill 2016, mae mwy na 3,700 o bobl a 580 o sefydliadau wedi cael hyfforddiant rhaeadru Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff, gan eu galluogi i godi ymwybyddiaeth am atal gwastraff bwyd. Mae gwefan Caru eich Dillad bellach 100 y cant yn ddwyieithog ac mae'n cynnwys 51 o ganllawiau a 20 ffeithlun cymdeithasol sy'n rhoi cyngor ar brynu dillad newydd, gofalu, trwsio, ailgreu ac uwchgylchu dillad a dod o hyd i gartrefi newydd i ddillad nad oes eu hangen, a naw o ganllawiau i gwsmeriaid ynghylch y dillad gorau i'w prynu. Mae nifer dilynwyr Caru Eich Dillad wedi cyrraedd 8,700 ar y cyfryngau cymdeithasol erbyn hyn.

HOFFI BWYD casáu gwastraff | LOVE FOOD hate waste

EICH DILLAD YOUR CLOTHES

ailgylchu dros Gymru recycle for Wales
ailgylchudrosgymru.org.uk
recycleforwales.org.uk

Mae WRAP yn hybu atal gwastraff yn y sector diwydiannol a masnachol, trwy ystod o gytundebau gwirfoddol sy'n cwmpasu cynhyrchion siopau bwyd a'u deunydd pacio (Ymrwymiad Courtauld), y Fforwm Cynaliadwyedd Cynhyrchion (PSF) blaenorol, y Cynllun Gweithredu Offer Trydanol ac Electronig (ESAP) a'r Rhaglen Weithredu Dillad Cynaliadwy (SCAP). Trwy ein gwasanaeth Cymru Effeithlon, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer y sectorau domestig, busnes, cymunedol, gwirfoddol a chyhoeddus i gael cymorth ynglŷn â defnyddio ynni, deunyddiau a dŵr yn fwy effeithlon.

Yr effaith a ragwelir ar gyfer trydydd cam (2013-2015) Ymrwymiad Courtauld yng Nghymru yw arbed tua 63,000 tunell o wastraff a lleihau 165 o filoedd o dunelli o $CO_2$(e), gyda budd cost o £91 miliwn i ddefnyddwyr, y sector siopau bwyd ac Awdurdodau Lleol.

Grŵp o sefydliadau yn cydweithio oedd y PSF yn cynnwys gwerthwyr a chyflenwyr cynhyrchion siopau bwyd, academyddion, sefydliadau anllywodraethol a chynrychiolwyr Llywodraeth y DU ac roedd yn darparu llwyfan ar gyfer y sefydliadau hyn i weithio gyda'i gilydd i fesur, gwella a chyfathrebu perfformiad amgylcheddol cynhyrchion bwyd. Ers 2016, mae gwaith PSF wedi ei barhau o dan Courtauld 2025.

Mae ESAP yn ceisio cyflymu camau gweithredu gan sectorau, rhannu tystiolaeth a dod â'r rhanddeiliaid amrywiol niferus at ei gilydd i gyflawni buddion economaidd ac amgylcheddol gwirioneddol o ran gwytnwch cynhyrchion, lleihau nifer y cynhyrchion a gaiff eu dychwelyd, ymddygiad defnyddwyr a chynhyrchion cynaliadwy, modelau busnes effeithlon o ran adnoddau ac ailddefnyddio ac ailgylchu. Yn sail i hyn y mae ymchwil WRAP yr ydym wedi ei ariannu ac sy'n canolbwyntio ar offer electronig defnyddwyr a dyfeisiau aelwydydd fel setiau teledu, gliniaduron, sugnwyr llwch, cynhyrchion oeri bwyd a pheiriannau golchi.

Uchelgais SCAP yw gwella cynaliadwyedd dillad ar bob cam o'u cylch bywyd. Trwy ddod â'r diwydiant, llywodraeth a'r trydydd sector at ei gilydd ei nod yw lleihau'r defnydd o adnoddau a sicrhau cydnabyddiaeth am berfformiad corfforaethol trwy ddatblygu targedau ar draws y sector. Mae Grŵp llywio yn ei oruchwylio sy'n cynnwys prif fanwerthwyr, brandiau, ailgylchwyr, cyrff y sector, sefydliadau anllywodraethol ac elusennau a chaiff ei gefnogi gan bedwar gweithgor. Mae rhai o'r prif gwmnïau dillad wedi addo mesur a lleihau eu hôl troed amgylcheddol a hyd yn hyn mae 87 o sefydliadau wedi cytuno i Ymrwymiad 2020 SCAP. Mewn dim ond dwy flynedd mae manwerthwyr, brandiau a sefydliadau o bob rhan o'r gadwyn cyflenwi dillad wedi lleihau'r effaith o ran defnyddio dŵr yn sylweddol sef 12.5 y cant fesul tunell o ddillad, o'i gymharu â'r targed lleihau o 15 y cant erbyn 2020. Maent hefyd yn gwneud

cynnydd addawol i leihau'r effeithiau carbon gan fod wedi cyflawni lleihad o 3.5 y cant fesul tunell o ddillad o'i gymharu â tharged lleihau o 15 y cant. Yng Nghymru mae hyn yn cyfateb i gyfanswm lleihau carbon o 48 kt CO2(e) a chyfanswm lleihau o ychydig yn llai na 26 o fetrau ciwbig o ddŵr.




Gydag arian grant Llywodraeth Cymru, mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn rheoli atal gwastraff yn y sector adeiladu a dymchwel trwy Galluogi Dyfodol Diwastraff. Mae'r rhaglen hon yn darparu ymyraethau ymarferol, cadarnhaol a gweithredol ar gyfer atebion rheoli gwastraff proffesiynol sydd wedi eu targedu at brosiectau adeiladu byw. Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn gweithio gyda'r safleoedd adeiladu hyn i gynnig ymyraethau ymarferol i'r prosiect adeiladu a'r timau safle i archwilio atebion dichonadwy o gyflawni dyfodol diwastraff. Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru hefyd wedi galluogi'r diwydiant adeiladu i roi deunyddiau sydd dros ben i'w hailddefnyddio gan brosiectau elusennol a chymunedol a hybu osgoi gwastraff a thirlenwi trwy recipro, gwasanaeth cyfnewid ar y we a chanolfan ar gyfer deunyddiau sydd dros ben. Yn ogystal â hyn mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn darparu canllawiau i'r sector adeiladu a dymchwel yng Nghymru ar atal gwastraff trwy ei wefan. Rhagwelir yn rhaglen waith gyfredol Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru o fis Hydref 2015 i 31 Mawrth 2018 y bydd 5,000 o dunelli o ddeunydd yn cael eu dargyfeirio o safleoedd tirlenwi, gan arbed costau o £50,000 a chreu pedair swydd werdd.

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

Enabling ZERO WASTE Galluogi DYFODOL DIWASTRAFF

recipro wales

## Ailddefnyddio

Rydym wedi darparu arian grant i WRAP ac Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru i ddatblygu a rheoli rhaglenni gwaith a phrosiectau i ddatblygu'r economi ailddefnyddio yng Nghymru trwy godi ymwybyddiaeth ohoni a datblygu ei seilwaith. Mae gwaith arall yr ydym wedi ei noddi yn y maes hwn yn cynnwys:

- dadansoddi a mapio'r sefydliadau ailddefnyddio yng Nghymru
- datblygu arwyddion i gynyddu ailddefnyddio mewn canolfannau Ailgylchu Gwastraff Aelwydydd i Awdurdodau Lleol eu defnyddio pan eu bod yn ystyried hynny'n briodol
- mewn partneriaeth â WRAP ac Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, datblygu dulliau cyfathrebu ac ymgyrchoedd. Er enghraifft, gwefan 'Ailgylchu dros Gymru' sy'n cynnwys cyngor ar drwsio ac ailddefnyddio eitemau
- gwelliannau i'r offeryn lleoli 'Lleoliad Ailgylchu' Ailgylchu dros Gymru sy'n rhoi cyngor i aelwydydd ynglŷn â sut i atal gwastraff a lle i ailgylchu eitemau. Mae'r safle hefyd yn darparu cyngor ar sut i roi eitemau'r cartref i eraill er mwyn cynyddu'r ailddefnydd gan sefydliadau ailddefnyddio ac elusennol lleol. Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd i annog sefydliadau ar draws y sector ailddefnyddio i gynnwys eu manylion ar yr offeryn 'Lleoliad Ailgylchu'.

21 www.recyclenow.com/

22 http://www.recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1

## Ailgylchu

Rydym wedi hyrwyddo ailgylchu ansawdd uchel yn y sector dinesig Awdurdodau Lleol trwy bennu targedau ailgylchu statudol trwy Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, gan roi cyngor ar gasglu ar wahân ac arferion gorau. Rydym yn cefnogi'r sector i gyflawni'r rhain trwy ein Rhaglen Newid Gydweithredol a'n Grant Refeniw Sengl (y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy (SWMG) yn flaenorol). Mae'r Rhaglen Newid Gydweithredol yn cefnogi Awdurdodau Lleol i wneud y mwyaf o'u potensial i weithredu gwasanaethau rheoli gwastraff cynaliadwy. Rydym yn darparu cyllid o dan y Grant Refeniw Sengl (a SWMG yn flaenorol) i gefnogi rhestr o weithgareddau sy'n cefnogi gweithgareddau ailgylchu yn unig. Roedd y rhain yn cynnwys hybu camau atal gwastraff a pharatoi i ailddefnyddio eitemau, gwasanaethau casglu wrth ochr y ffordd ar gyfer deunydd sych y gellid ei ailgylchu a gwastraff bwyd a gesglir ar wahân, gan godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a diwydiant a chynyddu'r cyfraddau cymryd rhan, a chyfranogi'n effeithiol mewn cynlluniau ailgylchu. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru ym maes ailgylchu gan gynnwys:

- pob busnes a chyrff sector cyhoeddus i gadw deunyddiau ailgylchadwy ar wahân yn y safle (gan gynnwys bwyd)
- deunyddiau ailgylchadwy i'w casglu ar wahân
- gwahardd ar wastraff ailgylchadwy i Troi Gwastraff yn Ynni
- gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd (heb gynnwys o aelwydydd).

Yn y sector diwydiannol a masnachol rydym yn rhoi arian grant i WRAP i gefnogi busnesau ailgylchu ac ailbrosesu ac i weithio gyda gweithgynhyrchwyr Cymru i gynyddu faint o gynnwys wedi'i ailgylchu a ddefnyddir mewn cynhyrchion a deunydd pacio. Trwy hwn mae WRAP wedi darparu cyllid cyfalaf i fuddsoddi mewn offer ar gyfer hyn trwy ei raglen Cyflymu Datblygiad Seilwaith Ailbrosesu (ARID) a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a chymorth technegol ar gyfer hyn i fusnesau trwy ei raglen ReMake. Mae ein harian grant i WRAP wedi cefnogi ymchwil hefyd i ystyried y rhwystrau i ddefnyddio cynnwys wedi'i ailgylchu gan weithgynhyrchwyr Cymru, cymorth ymgynghorol i annog gwahanu gwastraff bwyd a'i waredu trwy gyfleusterau Treulio Anaerobig a chymorth i safleoedd compostio Treulio Anaerobig er mwyn bodloni safonau ansawdd ar gyfer compostio. Yn yr un modd mae ein harian grant i Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru wedi cefnogi gwaith hyrwyddo ailgylchu yn y sector adeiladu a dymchwel trwy ei Grŵp Cyflawni Ymyraethau ac Arloesi a'r rhaglen Galluogi Dyfodol Diwastraff. Mae'r grŵp yn gweithio gyda chleientiaid i oresgyn rhwystrau i ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau eilaidd, gan gynnwys darparu cyngor, datrys problemau a rhannu arferion da. Mae Galluogi Dyfodol Diwastraff yn canolbwyntio ar gasglu gwastraff ar wahân ar gyfer ei ailgylchu.

Rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer ailgylchu trwy'r targedau ailgylchu, paratoi ar gyfer ailddefnyddio a chompostio statudol a bennir ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010. Rydym wedi darparu cyllid i Awdurdodau Lleol i'w helpu i fodloni'r targedau hyn ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro perfformiad o'i gymharu â'r rhain yn ofalus iawn.

Gan weithio gyda gweinyddiaethau ac adrannau llywodraeth eraill y DU rydym wedi cyflwyno targedau newydd ar gyfer pecynnu ar gyfer y cyfnod 2013-17 drwy'r Rheoliadau Pecynnu Cyfrifol (Diwygio) 2012, sy'n gosod targedau uwch ar gyfer ailgylchu dur, alwminiwm, plastig a thargedau hollt ar gyfer gwydr. Gwnaethom hefyd gyflwyno canllawiau i Awdurdodau Lleol ar

faterion fel casglu papur, metel, plastig a gwydr ar wahân o dan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 (fel y'u diwygiwyd). I gefnogi hyn gwnaethom gyhoeddi'r Glasbrint Casgliadau, sy'n disgrifio'r proffil gwasanaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei argymell ar gyfer casglu gwastraff o aelwydydd. Pe byddai'n cael ei ddarparu ledled Cymru, byddai'n achosi cyfraddau uwch o ailgylchu o ansawdd uchel, arbedion cost sylweddol a chanlyniadau datblygu cynaliadwy gwell. Ar hyn o bryd, mae gan 12 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru wasanaethau casglu gwastraff o aelwydydd sydd wedi eu cyfochri â'r Glasbrint.

Rydym hefyd wedi cynnig cyfle i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gymryd rhan yn y Rhaglen Newid Gydweithredol, sy'n helpu i sicrhau bod Cymru yn cyflawni'r targedau ailgylchu uwch ac yn darparu grantiau cyfalaf i gefnogi newidiadau gwasanaeth. Mae'r rhaglen yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i newid i wasanaethau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy ac yn cynnig llwyfan i awdurdodau rannu syniadau da ac arferion gorau. Ers sefydlu'r Rhaglen Newid Gydweithredol yn 2011, mae pob un o'r 22 Awdurdod Lleol wedi cael cymorth neu yn cael cymorth ar hyn o bryd gan y Rhaglen ac mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu astudiaethau achos i hyrwyddo arfer gorau.

Ym mis Mawrth 2016 gwnaethom gynnal a chyhoeddi adolygiad i wella'r broses o adrodd am gyrchfannau terfynol y deunydd ailgylchadwy y mae awdurdodau lleol yn ei gasglu, a fydd yn ein galluogi i olrhain faint o ddeunydd wedi'i ailgychu a ddefnyddir yng Nghymru a monitro gwelliannau yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd roi cyllid grant i ddadansoddiad cyfansoddol o wastraff dinesig yng Nghymru yn 2015 a gynhaliwyd gan WRAP i lywio polisi.

## Achosion eraill o adfer a gwaredu

Ers 2001 rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i Awdurdodau Lleol i'w helpu i ddatblygu'r seilwaith angenrheidiol i ailgylchu mwy, gan gynnwys gwastraff bwyd. Mae hyn wedi galluogi pob Awdurdod Lleol yng Nghymru i gynnig gwasanaethau ailgylchu cynhwysfawr ac mae bron pob aelwyd yn derbyn casgliadau gwastraff, gan gynnwys gwastraff bwyd.

Ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu na'i ailddefnyddio, rydym wedi datblygu dwy raglen i gynhyrchu compost neu adfer ynni ohono neu ei ddargyfeirio rhag cael ei anfon i safle tirlenwi. Ers 2008 mae ein Rhaglen Caffael Triniaeth Gwastraff Bwyd wedi darparu £12 miliwn o gymorth cyfalaf a refeniw i Awdurdodau Lleol sy'n mabwysiadu technoleg treulio anaerobig. Mae pum contract ar gyfer cyfleusterau treulio anaerobig wedi eu dyfarnu drwy'r rhaglen, ac mae pob un ohonynt wedi eu hadeiladu ac yn weithredol, ac mae dau brosiect arall i'w dyfarnu yn ystod 2017. Rydym hefyd wedi ariannu WRAP i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer compost a deunydd ar gyfer treulio anaerobig trwy brosiectau sy'n dangos buddion defnyddio compost a deunydd treulio anaerobig ym meysydd amaeth, tirlunio ac adeiladu.

Ers 2008 mae ein Rhaglen Caffael Triniaeth Gwastraff Gweddilliol wedi darparu £5 miliwn i Awdurdodau Lleol i drin gwastraff na ellir ei ailgylchu na'i gompostio i gynhyrchu ynni. Trwy'r rhaglen rydym wedi annog a chefnogi Awdurdodau Lleol i weithio mewn consortia i gaffael capasiti trin gwastraff gweddilliol dinesig. Mae dwy bartneriaeth Awdurdodau Lleol wedi dyfarnu contractau 25 mlynedd yn ne-ddwyrain Cymru, ac mae partneriaeth yng ngogledd Cymru wedi dyfarnu contract yn 2016 a bydd cyfleusterau yn weithredol yn 2019.

23 Ar gael yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/end-destinations-review/?skip=1&lang=cy

## Y camau nesaf

Byddwn yn ymgynghori ar adnewyddu strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff ym mis Gorffennaf 2018 i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r amcanion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ein nod yw parhau i symud ymlaen tuag at ein Nod Un Blaned o leihau effaith gwastraff yng Nghymru a sicrhau bod hynny oddi mewn i'n terfynau amgylcheddol trwy sicrhau y bydd ein cynlluniau a'n rhaglenni yn parhau i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn rhagweithiol, yn gynaliadwy ac mewn modd cydgysylltiedig, gan sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu bodloni heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG32158 ISBN digidol: 978 1 4734 9789 4